

# RYDYM YN

# RECRIWTIO

Ymunwch â'r tîm Hamdden Sir Ddinbych Cyf





# Cynorthwydd Gwasanaethau Gwesteion

**Lleoliad:** Theatr Y Pafiliwn, Y Rhyl

**Cyflog:** Graddfa 3, £15,050 to £15,658  
y flwyddyn

**Oriau:** 30 awr yr wythnos yn flynyddol

**Contract:** Parhaol

**Dyddiad Cau:** 27 Hydref 2021


## Sut i wneud cais:

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein trwy ein gwefan [www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk) Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706100.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni Masnachu Cyfyngedig drwy Warant sy'n eiddo i'r Cyngor, ac felly caiff ffurflenni cais eu gweinyddu gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais trwy'r wefan er mwyn cael eu hystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

## Neges oddi wrth ein Rheolwr-Gyfarwyddwr

Helo, fy enw yw Jamie Groves, a fi yw'r Rheolwr Gyfarwyddwr Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Am fod gennych ddi-ddordeb mewn ymuno â'n Cwmni, roeddwn yn credu yr hoffech gael ychydig o wybodaeth amdanom ni.



Mae hwn yn gyfle cyffrous i ymuno Hamdden Sir Ddinbych Cyf, gan ein bod yn Gwmni newydd gyda thîm sefydledig, brwdfrydig ac ysgogol, sydd â diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef enw da o brofiadau gwych yn ein cyfleusterau i gyd a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

*"Darparu cyfleoedd hamdden hygyrch o safon uchel sy'n denu lefelau cyfranogi uchel, a gwella lles ein trigolion ac ymwelwyr"*

Mae ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r safon orau i gwsmeriaid yn parhau o un flwyddyn i'r llall, ac mae'r rhaglen dreigl hon o fuddsoddiad yn ein cyfleusterau wedi arwain at enw da am ddarparu cyfleusterau chwaraeon, ffitrwydd a hamdden i'n preswylwyr ac ymwelwyr, sydd yn cael eu cymharu â'r rhai gorau yn y sector breifat. Mae ein saith Canolfan Hamdden yn cynnig cyfarpar campfa o'r radd flaenaf ac ystod eang o ddsbarthiadau ffitrwydd. Ar draws y sir, mae gennym chwe pwll nofio, yn ogystal â neuaddau chwaraeon a chaeau aml dywydd.

I'r rheiny sydd yn chwilio am ddiwrnod llawn hwyl, mae gennym barc dŵr SC2 gyda Tag Ninja yn y Rhyl, y Nova – ein lleoliad orau i ymwelwyr ym Mhrestatyn, a Chanolfan Bowls Gogledd Cymru. Rydym yn cynnig bwyd arbennig a choctêls ym Mwyty a Bar 1891 yn y Rhyl, neu bitsa a gwydraid oer o win gwyn yn yr haul yn y Beach Hut ym Mhrestatyn. I'r rhai hynny sydd â diddordeb yn y celfyddydau, efallai hoffech ymweld â Chanolfan Grefft Rhuthun, Canolfan ar gyfer y Celf Cymhwysol gyda 3 oriel yn dangos celf gymhwysol cenedlaethol a rhyngwladol orau. Mae gan ein tîm Cymunedau Actif prysur gyfoeth o brofiadau yn eu sectorau eu hunain, a gyda'i gilydd maent yn cyfuno eu sgiliau i gynnig rhaglen amrywiol o ansawdd uchel, a chyfleodd hamdden cynhwysol. Mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n holl gwsmeriaid, felly os mai cynnal parti pen-blwydd neu helpu rhywun wella eu hiechyd a ffitrwydd ydyw, rydym bob amser yn barod i helpu.

Ein staff sy'n sail i'n llwyddiant, ac mae gennym dîm gwych yn Hamdden Sir Ddinbych Cyf. Rydym yn cynnig cyfleoedd eang i hyfforddi a datblygu gyrfa, ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod ein staff yn hapus yn eu rôl. Os ydych yn angerddol dros ddarparu gwasanaeth rhagorol, yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atoch, gyda'r awydd i helpu cydweithwyr a chwsmeriaid, yna byddwch yn gartrefol iawn gyda ni.

Rydym ni'n edrych ymlaen at dderbyn eich cais.



## Hamdden Sir Ddinbych Cyf.

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf. yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol a llawn cymhelliant sydd â diwylliant o ddarparu gwasanaeth perfformiad uchel a rhagorol i gwsmeriaid. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain at ein sefyllfa bresennol, sef cyfleusterau uchel iawn eu parch a thîm o weithwyr caled sy'n ffynnu o ddarparu'r profiadau gorau posibl i gwsmeriaid.

Rydym yn disgwyl i'n staff ymrwmo i;

- Ddarparu gwasanaeth o safon rhagorol bob amser
- Sicrhau eu datblygiad eu hunain a datblygiad ein busnes
- Gweithio'n hyblyg ar draws safleoedd lle bo angen
- Cefnogi gwaith tîm, cefnogi eu cydweithwyr a'n cwsmeriaid

Mae ein gweithlu yn hynod o bwysig i ni ac rydym yn ymrwymedig i gefnogi staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng gwaith a bywyd. Mae gan bawb sy'n gweithio i Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fuddion, gan gynnwys aelodaeth campfa am bris gostyngol, cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol, hawl i wyliau blynyddol hael (gyda chyfle i brynu mwy) a chefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiant gyrfa a secondiadau.

Ein Pobl | Ein Busnes | Ein Cymuned



# Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd: Cynorthwydd Gwasanaethau Gwesteion

Gradd: 3

Cwmni: Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Yn atebol i : Rheolwr Masnachol

Rhif ID Swydd / Dyddiad Cyhoeddi: 03512

## Pwrpas y Swydd:

Fel aelod o'r tîm Gwasanaethau Gwesteion, bydd disgwyl i chi ddarparu croeso cynnes, cyfeillgar a chofiadwy i'n gwesteion a sicrhau bod eu hanghenion a'u disgwyliadau yn cael eu cwrdd trwy gydol eu harhosiad gyda ni. Byddwch yn darparu cefnogaeth ym mhob swyddogaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gwesteion ac, yn dibynnu ar yr atyniad, bydd disgwyl i chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am ffitrwydd, rhaglenni nofio, gweithgareddau plant, rhaglen theatr a chynigion bwyd a diod, yn ogystal â'r holl wybodaeth ddiweddaraf am ein cyfleusterau, ein prisiau a'n hyrwyddiadau er mwyn cynghori ein gwesteion yn unol â hynny.

Disgwylir i chi weithredu dull o 'cwsmer yn gyntaf' i bob agwedd o'n gweithrediadau cwsmeriaid, gan sicrhau bod holl gamau taith y cwsmer yn ysgogi cyfraddau trosi cwsmeriaid, yn darparu profiad cwsmer arbennig, yn cynhyrchu busnes ailadroddus ac yn ymgorffori enw da HSDd am ragoriaeth.

## Prif Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:

- Sicrhau fod pob gwestai yn cael croeso cyfeillgar a chofiadwy.
- Sicrhau fod pob ymholiad a chwyn gwestai yn cael ei delio ac mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol, gan sicrhau boddhad gwesteion bob amser. Lle bo hynny'n briodol, sicrhau bod sylwadau a chwynion yn cael eu hadrodd i'r Rheolwyr.
- Monitro ac ymateb yn rhagweithiol i arweinwyr ac ymholiadau trwy ein gwefannau cymdeithasol, e-bost a gwefannau ymdrin ag ymholiadau.
- Derbyn a chymryd archebion cwsmeriaid ar gyfer rhaglenni a digwyddiadau penodol, a derbyn / gweinyddu taliadau gan gwsmeriaid am archebion, mynediad a nwyddau.
- Sicrhau bod cyfleoedd ailwerthu priodol yn cael eu hawgrymu ar gyfer pob archeb a phryniant lle bynnag y bo modd.
- Hyrwyddo ac annog pobl i ddefnyddio llwyfannau ar-lein HSDd, gan gynorthwyo aelodau a gwesteion yn ôl yr angen. Yn dibynnu ar yr atyniad, gall y rhain gynnwys archebu, tocynnau, trin ymholiadau, cefnogaeth aelodau a llwyfannau gwersi nofio.



- Cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am argaeledd, hyrwyddiadau a phrisiau er mwyn rhoi cyngor i westeion yn ôl yr angen ac uchafu cyfleoedd gwerthu i'r eithaf.
- Hyrwyddo cyfleusterau ac atyniadau HSDd ac, yn amodol ar yr atyniad, cynnal teithiau o'r cyfleusterau ar gyfer aelodau potensial a gwesteion.
- Darparu gwybodaeth a chyngor cyffredinol ynghylch rhaglenni digwyddiadau a gweithgareddau'r atyniad.
- Gweithio'n agos gyda thimau gweithrediadau, bwyd a diod a chynnal a chadw ynglŷn â gofynion gwesteion i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau pob gwestai yn cael eu cwrdd â thrwy gydol eu hymweliad.
- Sicrhau fod blaen y tŷ a'r ardaloedd gwesteion yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda bob amser
- Cynnal a gorfodi polisïau, gweithdrefnau a safonau'r cwmni yn ôl yr angen.
- Ymgymryd â gwaith gweinyddol yn ôl yr angen, gan gynnwys gweinyddu a chofnodi'r holl incwm a gwariant.
- Cefnogi ymrwymiad y cwmni i gyfleoedd cyfartal ac i hyrwyddo arferion anwahaniaethol ym mhob agwedd ar y gwaith a wneir.
- Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd hwn fod yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr; fe'i cyhoeddir fel fframwaith i amlinellu'r prif feysydd cyfrifoldeb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

- Profiad blaen tŷ blaenorol yn y sector atyniadau, hamdden neu letygarwch
- Sgiliau ffôn a TG rhagorol
- Cyflwyniad personol o safon uchel
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol gyda phersonoliaeth hyderus ac allblyg a'r gallu i ryngweithio â phobl ar bob lefel
- Y gallu i fentro a dull ymarferol o ddatrys problemau
- Angerdd am ddarparu gwasanaeth gwesteion arbennig
- Agwedd gwrtais a dymunol tuag at westeion a chydweithwyr
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Sylw da i fanylder
- Y gallu i weithio dan bwysau a jyglo blaenoriaethau cystadleuol mewn amgylchedd prysur, cyflym a heriol heb lawer o oruchwyliaeth
- Agwedd gadarnhaol a hyblyg tuag at waith (bydd angen gweithio rhai penwythnosau a min nos)



## Goruchwyllo / Rheoli Pobl

- Yn gyfrifol am gyfarwyddo a chefnogi staff sy'n wynebu cwsmeriaid. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb rheoli llinell uniongyrchol wedi'i gynnwys yn y rôl hon.

## Amodau Gweithio Arbennig

- O ystyried natur ddeinamig a thymhorol ein hatyniadau, bydd angen dull hyblyg o ymdrin ag oriau gwaith craidd, yn enwedig yn ystod y tymor prysuraf, wrth weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Fel yr adlewyrchir yn y cyfrifoldebau, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd ymgymryd â rôl cwmni ehangach wrth gydlynu cyflwyno gweithgareddau marchnata ac, o'r herwydd, rhaid bod gan ddeiliad y swydd y gallu i deithio ledled y sir.
- Bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd gwblhau tasgau yn annibynnol, a bod â gallu profedig i weithio oddi ar ei liwt ei hun.
- Mae'r gallu i flaenoriaethu gwaith, delio â blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a chwrdd â therfynau amser yn hanfodol i'r swydd hon.

## Gweledigaeth / Cyd-destun

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf wedi cael ei drawsnewid dros y degawd diwethaf a bellach yn cael ei adnabod am ddarparu safonau uchel o ddarpariaeth ar draws Sir Dinbych; gyda chynigion hamdden newydd, unigryw, fforddiadwy a chynaliadwy yn fasnachol; wrth wneud cyfraniad sylweddol at wella iechyd ein preswylwyr a sicrhau ffyniant economaidd. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd gweithlu brwdfrydig iawn, gyda diwylliant gwych sy'n gweithio gyda gwerthoedd cryf.

Disgwylir i ddeiliad y swydd arddangos a hyrwyddo gwerthoedd craidd ein cwmni:

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr bob amser, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn cryfhau ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.

Mae gan Hamdden Sir Ddinbych Cyf dri philer pwysig, ond gwahanol, sy'n llywio ac yn dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n gweithio a pham y cafodd y Cwmni ei greu. Mae'r Cwmni'n cael ei gydnabod am y cyfraniad gwerthfawr y mae'n ei wneud i'n cymunedau, sut mae'n gweithio gyda phartneriaid a busnesau eraill, ac yn bwysicach fyth sut mae'r Cwmni'n gofalu am a datblygu ei weithlu - mae'r Cwmni'n credu'n fawr mewn athroniaeth 'un tîm - un cyfrif banc'.



# Tair colofn Hamdden Sir Ddinbych Cyf:

## Ein Cymuned

O fewn ardal ehangach Sir Ddinbych, mae ein timau'n gweithio gyda rhwydwaith o gymunedau llai sy'n cynnwys cwsmeriaid, clybiau chwaraeon, grwpiau lleol a thrigolion. Rydyn ni'n gosod y cymunedau hyn wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud.

## Ein Pobl

Credwn fod ein staff yn elfen hanfodol o lwyddiant Hamdden Sir Ddinbych. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r profiad y mae pob unigolyn yn cynnig i'w rôl ac er bod y Cwmni'n cynnig ystod amrywiol o wasanaethau, mae gan bob un o'r timau'r un rhinweddau yn gyffredin - maent yn angerddol ac yn llawn cymhelliant, gyda diwylliant o berfformiad uchel ac enw da am Wasanaeth Cwsmer rhagorol.

## Ein Busnes

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn Gwmni newydd, wedi'i adeiladu ar hanes o berfformiad uchel ac arfer arloesol. Dros y blynyddoedd diwethaf, fel gwasanaeth yng Nghyngor Sir Dinbych, rydym wedi meithrin perthnasoedd parhaol a buddiol i bawb gyda nifer o bartneriaid. Rydym yn edrych ymlaen at lwyddiant parhaus y partneriaethau sefydledig hyn, wrth ddatblygu mentrau newydd a chyffrous hefyd. Ym mhob un o'n perthnasoedd, rydym wedi ymrwymo i weithredu gyda gonestrwydd, tryloywder a chwarteisi.

Mae deiliad y swydd yn allweddol i sicrhau erbyn 2030...y bydd y cwmni yn parhau i gael ei gydanbod am ddarparu cyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd uchel sy'n denu lefelau uchel o gyfranogiad, ac yn gwella lles trigolion ac ymwelwyr Sir Ddinbych'.





## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae gofyn i weithwyr newydd fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; 2 eirda boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU.

## Datganiad Diogelu

Mae Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelu yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Hamdden Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y corff, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi wrth gyflawni eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion cam-fanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r corff allu gweithredu pan gaiff cam-fanteisio ei adnabod.



# Manylion am yr Unigolyn

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweild am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n bertnasol).

Teitl y Swydd: Cynorthwydd Gwasanaethau Gwesteion

Cwmni : Hamdden Sir Ddinbych Cyf

Gradd: 3

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol
Addysg a chymwysterau	TGAU Mathemateg a Saesneg neu brofiad mewn disgyblaeth berthnasol	
Profiad perthnasol	Profiad blaenorol o fewn rôl sy'n wynebu cwsmeriaid	Profiad blaenorol yn y sector atyniadau, hamdden neu letygarwch
Gwybodaeth a sgiliau cysylltiedig â'r swydd	Sgiliau llythrennedd a rhifedd da  Dull ffôn da a Sgiliau TG  Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol gyda phersonoliaeth hyderus ac allblyg a'r gallu i ryngweithio â phobl ar bob lefel	

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol
<p>Gwybodaeth a sgiliau cysylltiedig â'r swydd</p>	<p>Y gallu i fentro a dull ymarferol o ddatrys problemau</p>	
<p>Rhinweddau Personol</p>	<p>Cyflwyniad personol o safon uchel</p> <p>Agwedd gwrtais a dymunol tuag at westeion a chydweithwyr</p> <p>Y gallu i weithio fel rhan o dîm</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>·Sylw da i fanylder</li> <li>·Y gallu i weithio dan bwysau a jyglo blaenoriaethau cystadleuol mewn amgylchedd prysur, cyflym a heriol heb lawer o oruchwyliaeth</li> <li>·Agwedd gadarnhaol a hyblyg tuag at waith (bydd angen gwaith penwythnos a min nos)</li> </ul>	
<p>Gofynion eraill</p>	<p>Empathi gyda'r iaith a diwylliant Gymraeg.</p>	<p>Gallu i gyfathrebu a gweithio drwy'r gyfrwng Gymraeg</p>



## **Diolch am eich diddordeb**

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch Rheolwr Masnachol, Steve Baldwin ar [steven.baldwin@hamddensirddinbych.co.uk](mailto:steven.baldwin@hamddensirddinbych.co.uk), 01824 712378.



[www.hamddensirddinbych.co.uk](http://www.hamddensirddinbych.co.uk)



Hamdden Sir Ddinbych



@HamddenSDd